AMGUEDDFA CYMRU

**Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Sesiwn Gyhoeddus – Cofnodion**

**24 Gorffennaf 2025 am 13:00**

**Microsoft Teams**

**Ymddiheuriadau:**

***Owen Hathway, Ymddiriedolwr***

***John Hunt, Ymddiriedolwr***

***Ameerah Mai, Ymddiriedolwr***

*Daniel Richards, Ymddiriedolwr*

***Richard Thomas, Ymddiriedolwr***

***Cai Wilshaw, Ymddiriedolwr***

***Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau***

**Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:**

*Kate Eden*

*Rhys Evans*

*Hywel John*

*Llion Iwan*

*David Aled Jones*

*Abigail Lawrence*

*Freya Stannard*

*Jan Williams*

*Emma Yhnell*

**Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn Bresennol:**

***Jane Richardson, Prif Weithredwr***

***Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth***

***Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil***

***Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido***

***Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu***

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**
***Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu (Ysgrifenyddiaeth)***

1. **Agor y Cyfarfod**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden

I. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
II. Ni roddwyd gwybod i'r Cadeirydd am unrhyw ddatganiadau ychwanegol o fuddiant.
III. Esboniodd y Cadeirydd yr amgylchiadau a arweiniodd at alw cyfarfod Bwrdd ychwanegol i gymeradwyo Cynllun Busnes Pum Mlynedd 2021-26 yn ôl-weithredol. Nododd fod hwn yn gam anarferol i ychwanegu at gofnodion a gymerwyd ar y pryd, ond yn weithred hollbwysig er mwyn sicrhau Achrediad Amgueddfa.

2. **Achrediad Amgueddfa – Cymeradwyo Cynllun Busnes Pum Mlynedd 2021-2026**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a ddywedodd y canlynol:
   i. Bydd Amgueddfa Cymru yn ailgyflwyno cais am Achrediad Amgueddfa i Arts Council England bob pum mlynedd. Cadarnhad cyhoeddus bod Amgueddfa Cymru yn cyrraedd set ofynnol o safonau ar gyfer amgueddfeydd yw'r Achrediad, ac mae'n bosibl iddo gael dylanwad pwysig ar y mathau o gyllid y gallai Amgueddfa Cymru wneud cais amdanynt.
   ii. Dechreuodd y cylch gwneud cais diwethaf ym mis Tachwedd 2024. Fel rhan o hyn, mae cais wedi cael ei wneud ar gyfer pob un o'r saith safle, a chafodd y cais cyffredinol ei wneud dan ambarél eang Amgueddfa Cymru. Roedd cais pob safle yn cynnwys dogfennaeth wedi'i theilwra a oedd yn rhoi gwybodaeth benodol, er enghraifft trefniadau diogeledd, cynlluniau achub a manylion y casgliadau a gedwir ar y safle.
   iii. Roedd nifer o drafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r asesydd o Arts Council England, lle y nodwyd bod yr adroddiad a'r dogfennau polisi a gyflwynwyd yn cael eu croesawu, ond roedd cais wedi cael ei wneud am ddogfennau allweddol yn nodi bod Cynllun Busnes Pum Mlynedd 2021-2026 Amgueddfa Cymru wedi cael ei gymeradwyo. Ni lwyddodd y staff i ddod o hyd i gofnodion cyfarfod sy'n nodi'r gymeradwyaeth hon yn benodol, ac nid ystyrid bod tystiolaeth o'r ffordd roedd y Cynllun Pum Mlynedd yn cael ei fonitro yn ddigonol ar gyfer gofynion Arts Council England. Felly, roedd angen cymeradwyo'r Cynllun Pum Mlynedd yn ôl-weithredol.
   iv. Fel rhan o'r Achrediad, gofynnodd Arts Council England hefyd am Ddatganiad Mynediad, sef dogfen yn crynhoi ymrwymiadau deddfwriaethol i hygyrchedd safleoedd Amgueddfa Cymru. Gan mai eitem newydd oedd hon,

a gyflwynwyd yn ystod cyfnod asesu Amgueddfa Cymru, nid oedd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi'i chymeradwyo'n flaenorol.

v. Ar hyn o bryd, roedd statws achrediad dros dro wedi cael ei roi i safleoedd Amgueddfa Cymru. Roedd hyn yn cynnwys Amgueddfa Lechi Cymru, a fydd yn cadw ei statws dros dro nes y bydd y safle'n ailagor.

vi. Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Pum Mlynedd yn ôl-weithredol a chymeradwyo'r Datganiad Mynediad, byddai cofnodion y Bwrdd yn cael eu cyflwyno i Arts Council England er mwyn i ailasesiad gael ei gynnal yn ystod hydref 2025 yn y gobaith o ennill statws achrediad llawn.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Roedd yr Ymddiriedolwyr yn gyfarwydd â Chynllun Pum Mlynedd 2021-2026, gan fod fersiynau canol blwyddyn yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i gael eu cymeradwyo bob blwyddyn a chan fod y cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

ii. Roedd Arts Council England wedi gofyn am rai newidiadau i'r Datganiad Mynediad, sef mwy o fanylion am weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a dulliau diogelu. Cafodd y newidiadau hyn eu gwneud cyn i'r Datganiad Mynediad gael ei gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

iii. Roedd y Datganiad Mynediad bellach yn cael ei ystyried yn un o ddogfennau gweithio craidd Amgueddfa Cymru, a byddai'n cael ei adolygu'n rheolaidd yn y dyfodol, gyda diwygiadau'n cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i gael eu cymeradwyo.

iv. Cafodd polisïau a gyflwynwyd fel rhan o'r cylch ailachredu cyfredol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Mehefin 2024. Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer cylchoedd ailachredu yn y dyfodol, byddai'r holl bolisïau sy'n gysylltiedig ag achredu yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben.

v. Ar ôl i'r Tîm Arwain gwblhau'r gwaith adolygu polisïau, byddai gan yr holl bolisïau, gan gynnwys y Datganiad Mynediad, drywydd craffu cliriach i mewn i un o Bwyllgorau Parhaol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

vi. Roedd Ameerah Mai, Ymddiriedolwr, wedi gofyn am i'w chymeradwyaeth i'r cynnig a amlinellir yn y papur gael ei nodi yn ei habsenoldeb.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD Cynllun Busnes Pum Mlynedd 2021-2026 yn ôl-weithredol.**

**CYMERADWYWYD Datganiad Mynediad Amgueddfa Cymru.**

---

**3. Unrhyw Fater Arall**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden

I. Ni chodwyd unrhyw eitemau o dan Unrhyw Fater Arall.

**Diwedd Cyfarfod Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**